## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ychwanegol at WAQ54148 a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ar 11 Mai 2009

Mewn Cwestiwn Ysgrifenedig yn ddiweddar fe wnaethoch ofyn faint o bobl yng Nghymru yr amcangyfrifir iddynt fod yn cysgu ar y stryd ym mhob blwyddyn er 1999.

Cyn 2007 nid oedd system yn bodoli i fesur faint o bobl oedd yn cysgu ar y stryd ledled Cymru. Tan hynny roedd y data a gasglwyd yng Nghymru yn anghyson ac yn fylchog. Felly, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer y blynyddoedd rhwng 1999 a 2007.

Ym mis Mai 1999 mynegodd Shelter Cymru fod Rough Sleepers Cymru, cynghrair o fudiadau digartrefedd yng Nghymru, wedi amcangyfrif, ar gyfer eu meysydd penodol hwy, bod dros 150 o bobl yn cysgu ar y stryd yng Nghymru.

Ym Mawrth 2007 a Mawrth 2008 gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad i'r holl awdurdodau lleol gynnal cyfrifiad ar un noson o'r bobl oedd yn cysgu ar y stryd yn eu hardaloedd nhw. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau:

| Blwyddyn | Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd |
|---|---|
| 2007 | 166-199 |
| 2008 | 125-165 |

Ni wnaethom ofyn i'r Awdurdodau Lleol barhau gyda'r cyfrifiadau hyn yn 2009 oherwydd pryderon ynghylch cyfyngiadau ar gywirdeb ffigurau sy'n seiliedig ar gyfrifiad un noson yn unig. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu ymchwil a fydd yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ar y dull mwyaf priodol o fesur faint o bobl sy'n cysgu ar y stryd. Gwneir hyn drwy fonitro parhaus ar draws yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda'r digartref. Disgwylir y bydd canfyddiadau'r ymchwil hon a'r argymhellion ar gael erbyn haf 2009.